

Amaeth Cymru

Dyfodol amaethyddiaeth
yng Nghymru: y ffordd ymlaen



Amaeth Cymru

Dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru: y ffordd ymlaen

Cynnwys

1. Cyflwyniad i Amaeth Cymru	3
2. Ein huchelgais	4
3. Y canlyniadau	5
4. Cysylltiadau â grwpiau a sectorau eraill	5
5. Ein sefyllfa bresennol	6
Tueddiadau byd-eang	6
Diwydiant Amaethyddiaeth Cymru	6
Mewnforion ac allforion allweddol	7
Y buddion ehangach o amaethyddiaeth	7
Y taliadau cymorth presennol	8
Deddf yr Amgylchedd (Cymru)	8
6. Yr effaith o ymadael â'r UE	9
Cyfleoedd a bygythiadau o ganlyniad i ymadael â'r UE	9
7. Y ffordd ymlaen	10
Anghenion cyffredinol	10
Mesurau i gynyddu ffyniant	10
Mesurau i gynyddu cydnerthedd	12
8. Casgliad	13
Atodiad 1: Papur Tystiolaeth – Sector amaethyddiaeth Cymru	14
Atodiad 2: Amaeth Cymru – Papur Sefyllfa ar Fynediad i Farchnadoedd	18
Atodiad 3: Dadansoddiad SWOT	22
Atodiad 4: Rhestr ffynonellau	26

1. Cyflwyniad i Amaeth Cymru ⇐

Sefydlwyd *Amaeth Cymru – Agriculture Wales* ar 25 Medi 2015 yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru.ⁱ Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi'i seilio ar 'bapur egwyddorion' a oedd wedi'i ddatblygu gan randdeiliaid blaenllaw yn y diwydiant ac roedd yn rhoi sylw i waith nifer o adolygwyr annibynnol.

Mae *Amaeth Cymru* yn grŵp sydd o dan arweiniad y diwydiant, gyda Llywodraeth Cymru yn bartner cyfartal. Roedd y grŵp wedi penodi Kevin Roberts yn gadeirydd annibynnol arno yn Ionawr 2016. Mae aelodaeth y grŵp yn cwmpasu amrywiaeth o fuddiannau, yn cynnwys undebau ffermwyr, cyrff ardollau, llywodraeth, academwyr ac arbenigwyr diwydiant. Mae'r holl aelodau wedi'u dangos isod.

Drwy gydweithio, mae *Amaeth Cymru* yn ceisio darparu arweinyddiaeth gadarn ar y cyd i symud y diwydiant ymlaen a gwireddu ein cydweledigaeth ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru. Mae gan yr holl bartneriaid ran

bwysig i'w chwarae ac maent yn gydgyfrifol am wireddu'r Weledigaeth.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein Gweledigaeth ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru, y canlyniadau cysylltiedig, trosolwg ar sefyllfa bresennol y diwydiant a'r blaenoriaethau strategol y bydd angen i ni roi sylw iddynt er mwyn gwireddu'r Weledigaeth honno.

Mae'r ddogfen hon wedi'i gosod yng nghydestun *Symud Cymru Ymlaen – rhaglen y llywodraeth i wella economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru*, gan arwain at wlad sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egniol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig a chysylltiedig. Gall y diwydiant amaethyddol chwarae rhan allweddol mewn helpu i gyflawni'r agenda hon. Mae hyn yn gyson â *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru*.ⁱⁱ

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y cyfnod hyd 2030, a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd gan *Amaeth Cymru* i sicrhau ei bod yn aros yn gyson â digwyddiadau yn y dyfodol.

Aelodaeth

Enw

Kevin Roberts

John Mercer

Dylan Morgan

Alan Davies

Nick Fenwick

Rebecca Williams

George Dunn

Gary Haggaty

Gwyn Howells

Tom Hind

John Griffiths

Peter Davies

Prysor Williams

Wynne Jones

Euryn Jones

Peredur Hughes

Andy Richardson

Helen Minnice-Smith

Nia Lloyd

Sefydliad

Cadeirydd Amaeth Cymru

NFU Cymru

NFU Cymru

FUW

FUW

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru

Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

Llywodraeth Cymru

Hybu Cig Cymru

Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

Coleg Sir Gâr

Cynrychiolydd yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Prifysgol Bangor

Cadeirydd Bwrdd Cyngori Strategol Cyswllt Ffermio

Cyfarwyddwr Amaeth Rhanbarthol - Cymru a De Orllewin Lloegr
HSBC, Aelod o Fwrdd Cyngori Strategol Cyswllt Ffermio

Cadeirydd y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Llywodraeth Cymru

CFFI Cymru



2. Ein huchelgais ⇨

Mae *Amaeth Cymru* wedi datblygu'r Weledigaeth ganlynol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru:

'Diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy'n hybu lles Cymru, nawr ac i'r dyfodol.'

Mae *Amaeth Cymru* yn cydnabod bod y diwydiant yn gweithredu mewn cyfnod o ansicrwydd na welwyd ei debyg o'r blaen a fydd yn galw am newidiadau mawr yn y ffordd y bydd llywodraeth a'r diwydiant yn gweithredu yn y dyfodol. Wrth ymadael â'r Undeb Ewropeidd, cawn gyfle unigryw i bennu gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth Cymru. Mae gan *Amaeth Cymru* ran bwysig i'w chwarae mewn helpu i reoli'r newid hwn ac mae wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth Cymru gan ystyried anghenion holl bobl Cymru nawr ac i'r dyfodol.

Y cydrannau allweddol yng ngweledigaeth *Amaeth Cymru*'s yw ffyniant a chydnerthedd:

- Er mwyn ffynnu, rhaid i ffermydd a busnesau cysylltiedig fod yn broffidiol, gan greu swyddi crefftus a dod â buddion economaidd eang.

- Er mwyn bod yn gydnerth, rhaid i fusnesau fod yn gadarn ac felly fod â'r gallu i wrthsefyll ergydion – rhai economaidd a rhai o achosion naturiol – gyda chymorth cyhoeddus i gywiro diffygion yn y farchnad ac i ddarparu fframwaith i barhau i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid gwella cadwynau cyflenwi i'w gwneud yn fwy effeithlon gyda'r gallu i weithredu mewn ffordd deg gan roi elw cynaliadwy i ffermwyr, proseswyr a manwerthwyr, er mwyn i ffermwyr allu canolbwyntio'n fwy ar y farchnad a sicrhau mwy o elw o'r farchnad am yr allbynnau y maent yn eu cynhyrchu.
- Rhaid i gynhyrchu fod yn broffidiol a chynaliadwy yn yr ystyr ehangaf – yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol – gan fod y canlyniadau hyn yn ategu ei gilydd.

Bydd busnesau sy'n llwyddo yn yr holl bethau hyn ar ôl ymadael â'r UE, gyda chymorth polisi priodol gan lywodraeth, yn ffynnu ac, yn bwysig, byddant yn cyfrannu at lesiant Cymru yn y presennol a'r dyfodol, gan helpu i gyflawni'r saith nod llesiant yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

3. Y canlyniadau ⇨

Mae *Amaeth Cymru* hefyd wedi cytuno ar nifer o ganlyniadau a rennir y bydd angen eu cyflawni er mwyn gwireddu'r Weledigaeth. Rydym am weld y diwydiant amaethyddiaeth yn datblygu ymhellach fel y gall gyflawni ei botensial ar gyfer:

- Gwella ei gynaliadwyedd – yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol.
- Cynhyrchu amrywiaeth fawr o 'gynhyrchion' o werth mwy sy'n ateb y galw presennol gan y farchnad ac yn rhag-weld tueddiadau yn y farchnad ac yn croesawu cyfleoedd.
- Bod yn fwy effeithlon, cystadleuol ac is o ran costau wrth gynhyrchu cynhyrchion bwyd, gyda'r gallu i amddiffyn ei gyfran o'r farchnad ddomestig a llwyddo mewn marchnadoedd newydd mewn gwledydd tramor. Bydd hyn yn galw am well defnydd o waith ymchwil, datblygu a throsglwyddo gwybodaeth; statws uwch o ran iechyd anifeiliaid a gwell dealltwriaeth o'r costau cymharol yn ein busnesau a sut i'w lleihau.
- Lleihau ein hól troed carbon a chyfrannu at gyrraedd ein targedau newid hinsawdd.
- Hybu rheolaeth ragorol ar yr amgylchedd (pridd, dŵr ac organebau naturiol) sy'n cynnal ac yn gwella cynhyrchu a'r amgylchedd naturiol ar gyfer y tymor hir.
- Parhau â chynhyrchu cynaliadwy cyffredinol yng Nghymru, gan sicrhau nad yw cynhyrchu'n cael ei ddadleoli i wledydd eraill sydd â safonau is o ran yr amgylchedd a/neu iechyd a lles anifeiliaid.
- Bod yn ddiwydiant sy'n parhau i greu cyfoeth i bobl Cymru.
- Bod yn ddiwydiant sy'n cyfrannu at sectorau eraill ac yn eu sbarduno.
- Cydnabod bod cysylltiad uniongyrchol rhwng buddsoddi yn y sector gan drethdalwyr a pharodrwydd y cyhoedd i dalu am y gwasanaethau a ddarperir. Bydd y sefyllfa ar ôl ymadael â'r UE yn gwneud y berthynas hon yn bwysicach byth ac mae'n hanfodol bod y gymuned ehangach yn deall y sector amaethyddiaeth ac yn

ymwneud â'i ddatblygu fel ei fod yn addas i'r dyfodol ac yn darparu nifer mawr o fuddion i'r cyhoedd

Bydd yn bwysig bod yr holl ymyriadau a champau gweithredu a ddatblygir yn y dyfodol ar gyfer y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru'n cael eu hasesu ar sail eu cyfraniad at gyflawni'r canlyniadau a'r Gydweledigaeth. Os na fydd cam gweithredu yn helpu i gyflawni'r rhain, yna ni ddylai gael ei ystyried yn flaenoriaeth. Yn y dyfodol, dylai polisiau a champau gweithredu gael eu corffori hefyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

Er bod ein Gweledigaeth yn un hirdymor, bydd y grŵp hefyd yn ystyried yr hyn a all ddigwydd yn y tymor byr i ymateb i'r risgiau, heriau a chyfleoedd a fydd yn wynebu'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru nesaf o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Er mwyn gwireddu'r Weledigaeth hon, rhaid i'r holl sefydliadau cysylltiedig weithio ar y cyd, gan rannu syniadau a gwybodaeth.

Dim ond drwy gydweithio a mynd i'r afael â'r dewisiadau anodd sy'n wynebu'r diwydiant y bydd amaethyddiaeth Cymru yn sicrhau'r newid sylweddol sydd ei angen er mwyn i'r diwydiant ffynnu wedi i ni ymadael â'r UE.

4. Cysylltiadau â grwpiau a sectorau eraill ⇨

Ar hyn o bryd, mae *Amaeth Cymru* yn gallu cyflawni'r weledigaeth a'r canlyniadau a rennir ar ei ben ei hun. Rhaid i'r grŵp gydweithio'n agos â grwpiau ac unigolion allweddol eraill.

Ar hyn o bryd, mae *Amaeth Cymru* yn cydweithio'n agos â'r canlynol:

- Y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
- Fforwm y Diwydiant Amaethyddiaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Cyswllt Ffermio – Bwrdd Cynghori Strategol

- Grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet ar Brexit a gweithgorau cysylltiedig
- Grŵp Cynghori ar Ewrop y Prif Weinidog

Bydd *Amaeth Cymru* yn gweithio hefyd gyda rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys llunwyr polisi cynllunio, Byrddau Gwasanaethau Lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a Cyfoeth Naturiol Cymru i wireddu ei uchelgeisiau.



5. Ein sefyllfa bresennol ⇐

Tueddiadau byd-eang ⇐

Nid y tueddiadau presennol yn amaethyddiaeth Cymru a'r amgylchedd yw'r unig rai sy'n bwysig. Rhaid rhoi sylw hefyd i dueddiadau byd-eang allweddol.ⁱⁱⁱ

Yr economi fyd-eang – byddai twf economaidd, yn enwedig mewn gwledydd incwm isel a chanolig, yn gallu cyflymu newidiadau mewn deiet a chynyddu'r galw am gynhyrchion amaethyddol.

Y newid yn yr hinsawdd – ar raddfa fyd-eang, amcangyfrifwyd bod y sectorau bwyd ac amaethyddiaeth yn cyfrannu 24%^{iv} o'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr (heb ystyried mesurau i ddal a storio carbon). Gall Newid Hinsawdd gyfyngu ar argaeledd dŵr a'r gallu i gynhyrchu bwyd mewn rhai rhannau o'r byd. Roedd cytundeb COP Paris 21 yn

cydnabod hyn ac er bod targedau wedi'u gosod i leihau allyriadau, cytunwyd na ddylai hyn fod ar draul cynhyrchu bwyd.

Gall newid hinsawdd gynnig rhai manteision i systemau tir pori yng Nghymru. Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan bwysig hefyd drwy ddal carbon o ganlyniad i reoli glaswelltir, mawn a choetiroedd fferm ac mae hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddatgarboneiddio'r sector ynni.

Diogelu cyflenwadau bwyd – mae newid demograffig byd-eang ynghyd â'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o roi pwysau ar y gallu i ddiogelu cyflenwadau bwyd, ac mae'r rhan fwyaf o'r twf mewn poblogaeth yn debygol o fod yn Affrica a De Asia. Er mwyn cwrdd â'r galw, erbyn 2050 bydd angen cynhyrchu bron 50%^v yn fwy o fwyd, porthiant a bidadwydd drwy amaethyddiaeth nag a wnaed yn 2012. Gall hyn arwain at gynnydd yn y prisiau am rai cynhyrchion. Yn ogystal â hyn, byddai'r bygythiad cynyddol o derfysgaeth ryngwladol a thensiynau rhwng gwledydd yn gallu creu bygythiadau yn y dyfodol i fasnach ryngwladol. Bydd hyn yn effeithio ar y gallu i ddiogelu cyflenwadau bwyd ac ar yr angen i ystyried a fydd angen bod yn fwy hunangynhaliol.

Yn y DU, mae gofynion defnyddwyr yn newid, yn ogystal â'u chwaeth. Mae teuluoedd yn mynd yn llai ac mae prydau bwyd yn cael eu dewis yn fwyfwy ar sail cyfleuster. Mae pobl hefyd yn bwyta llai o gig, ac mae 40% o fwytawyr cig yn 'flexitarians' (Kantar Worldpanel). Yn ogystal â hyn, mae pobl yn chwilio am opsiynau iachach yn eu deiet cyffredinol.

Diwydiant Amaethyddiaeth Cymru ⇐

Mae amaethyddiaeth Cymru yn hanfodol i Gymru ac rydym am ei gweld yn ffynnu, yn cydnabod ei chryfderau ac yn gwireddu ei photensial. Mae cyrhaeddiad ac effaith amaethyddiaeth yn ehangach na'i gwerth economaidd yn unig gan ei bod yn effeithio ar gymunedau gwledig, yr amgylchedd, diwylliant a llesiant yng Nghymru. Gall amaethyddiaeth gyfrannu

at gyflawni pob un o'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae papur yn Atodiad 1 sy'n amlinellu'r wybodaeth allweddol am sefyllfa bresennol amaethyddiaeth yng Nghymru, ac mae crynodeb o'r prif bwyntiau isod.

Y sector ffermio yw conglaen yr economi wledig ac mae'r rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru yn fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n eiddo i deuluoedd. Yng Nghymru, mae amaethyddiaeth yn rhoi cyfran fwy o'r gwerth ychwanegol gros cenedlaethol nag y mae yng ngwledydd eraill y DU ac mae'n cyflogi canran fwy o'r boblogaeth (3.6% o'i gymharu ag 1.4% yn y DU)^{vi}. Felly, bydd *Amaeth Cymru* yn ceisio cynyddu'r gwerth ychwanegol gros hwn a chreu rhagor o swyddi gan reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth wneud hynny.

Amaethyddiaeth Cymru yw'r ddolen bwysig gyntaf yn sector gweithgynhyrchu mwyaf Cymru; sector bwyd a diod dynamig sydd â throsiant blynyddol o £6.1bn (Datganiad Ystadegol Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio 2015), a chadwyn gyflenwi sy'n cyflogi 223,100^{vii}.

Mewnforion ac allforion allweddol ↪

Mae Cymru'n cyfrannu'n sylweddol at gynhyrchu cig coch a llaeth yn y DU. Yma y ceir 29% o'r defaid yn y DU, 13% o'r buchod godro a 11% o'r holl wartheg (o'i gymharu â thua 5% o'r bobl yn y DU)^{viii}.

Felly mae masnach yn y sectorau hyn yn bwysig iawn i'r diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'r farchnad allforio y tu allan i'r DU wedi dod yn gynyddol bwysig i'r diwydiant cig coch yng Nghymru, gan ei bod yn helpu i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw ac yn sicrhau cydbwysedd yn y galw am wahanol rannau o garcasau.

Mae Cymru'n cynhyrchu mwy o lawer o gig oen na'r hyn sy'n cael ei fwyta yn y wlad bob blwyddyn, gan fod 5% ohono'n cael ei fwyta yng Nghymru, 55-60% yng ngweddill y DU a 35-40% yn cael ei allforio. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw pennu a chynnal

marchnadoedd presennol a newydd yn y DU ac mewn gwledydd tramor. Mae gwerth yr allforion o Gymru wedi tyfu'n sylweddol o £57 miliwn yn 2004 i £106 miliwn yn 2015. Roedd 95% o'r allforion o gig defaid yn 2015 wedi mynd i farchnadoedd yn aelod-wladwriaethau eraill UE yr 28^x.

Mae'r rhan fwyaf o allforion cig eidion yn mynd i wledydd eraill yn Ewrop. Yn 2015, roedd 93% o holl allforion cig eidion a chig llo y DU (heb gynnwys offal), sy'n werth £51 miliwn y flwyddyn, wedi mynd i aelod-wladwriaethau eraill yn UE yr 28, a Gweriniaeth Iwerddon a'r Iseldiroedd gyda'i gilydd oedd wedi derbyn mwy na hanner yr holl allforion. Yn yr un modd, mae cyfran fawr o'r mewnforion o gig eidion i'r DU yn dod o UE yr 28 hefyd: yn 2015, y ffigur oedd 91% o gyfanswm y mewnforion^x.

Yn y sector llaeth, roedd diffyg masnach o tua £1.1bn gan y DU yn 2015, tua £120 miliwn yn llai nag yn 2014. Mae'r cydbwysedd masnach wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, gan fod mewnforion wedi lleihau ac allforion wedi cynyddu. Roedd bron y cyfan o'r mewnforion i'r DU wedi dod o'r UE ac yn 2015 roedd tua 90% o allforion y DU wedi mynd i'r UE. Mae dibyniaeth fawr ar Loegr am allu prosesu^{xi}.

Mae'r sectorau cynydau â'r garddwriaeth, moch a dofednod yn gymharol fach yng Nghymru ar hyn o bryd.

Y buddion ehangach o amaethyddiaeth ↪

Mae'r sector amaethyddiaeth yn dod â buddion ehangach i Gymru heblaw'r cyfraniad i werth ychwanegol gros o gynhyrchu amaethyddol. Am bob punt a gaiff ei buddsoddi mewn ffermio ym Mhrydain, mae'r diwydiant yn rhoi mwy na saith bunt yn ôl i economi'r DU.^{xii} Mae nifer cynyddol o ffermwyr yn arallgyfeirio eu busnesau fferm ac yn defnyddio eu tir i greu buddion ychwanegol. Er enghraifft, mae cynhyrchu ynni (solar, gwynt, gwres a phŵer cyfunedig) yn fwyfwy cyffredin.

Ceir cyfraniad clir hefyd gan amaethyddiaeth at ddarparu gwasanaethau fel dŵr ac aer glân sy'n dod â buddion hanfodol i'r cyhoedd. Yn fwy cyffredinol, ceir buddion cymdeithasol a diwylliannol ehangach hefyd (e.e. iaith, cadw'r dirwedd, ei rôl ganolog mewn cymunedau gwledig).

Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol mewn cynnal cymunedau gwledig. Mewn ardaloedd gwledig, mae busnesau amaethyddol yn darparu gwasanaethau eraill ac mae busnesau eraill yn dibynnu ar amaethyddiaeth am eu bywoliaeth, felly mae gwerth economaidd amaethyddiaeth i'r ardal yn fwy eang. Mae busnesau fferm yn bwysig fel cyflogwyr ar eu pen eu hunain, ac maent yn caffael gwasanaethau o bob math gan amrywiaeth fawr o fusnesau eilaidd. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod ffermydd teuluol yng Nghymru yn caffael mwy na 80% o'u nwyddau a gwasanaethau o fewn cwmpas 25 milltir i'r daliad^{xiii}, gan gyfrannu'n fwy eang at economiau a chymunedau lleol.

Ceir cynhyrchu amaethyddol ar fwy nag 80%^{xiv} o'r tir yng Nghymru ac mae'n cyfrannu felly at reolaeth ehangach ar adnoddau naturiol Cymru a chamau i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, yn unol â Deddf yr Amgylchedd. Mae'n bwysig bod y buddion amgylcheddol dichonol y gall ffermwyr eu darparu yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel 'nwyddau cyhoeddus'. Er enghraifft, amaethyddiaeth sy'n cyfrannu'r mwyaf at weithgarwch seiliedig ar fywyd gwyllt yng Nghymru yr amcangyfrifwyd ei fod yn werth £1.9 biliwn^{xv}.

Yn wahanol i rai rhannau eraill o'r DU, mae cysylltiadau diwylliannol â ffermio ledled Cymru'n aros yn gymharol gryf, ac mae amaethyddiaeth yn parhau i gyfrannu at ddenu ymwelwyr a sicrhau'r budd mwyaf posibl o dwristiaeth ac at gynnal y Gymraeg.

Ledled Cymru, mae'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned amaethyddol yn gwneud cyfraniad hanfodol at gadw'r iaith yn nhermau niferoedd, ac yn enwedig yn nhermau'r gyfran yn y categori sy'n siarad Cymraeg (29.5%)^{xvi}, sy'n fwy nag yn yr un categori cyflogaeth arall.

Y taliadau cymorth presennol ⇐

Ar hyn o bryd, mae ffermio yng Nghymru yn cael cymorth o tua €300,000,000^{xvii} y flwyddyn gan yr UE ac mae ffermio yng Nghymru'n ddibynnol iawn at ei gilydd ar y cymorthdaliadau hyn, fel y mae ffermwyr eraill yn Ewrop. Yn yr holl fathau o ffermydd, roedd taliadau cymorth yn 81% o'r Incwm Busnes Fferm ar gyfartaledd yn 2014/15 a'r Incwm Busnes Fferm cyfartalog ar gyfer yr holl fathau o ffermydd yng Nghymru yw £24,500^{xviii}. (Dylid nodi bod Incwm Busnes Fferm yn fesur o'r elw net ar fferm.)

Mae'r graddau y mae ffermydd yn dibynnu ar daliadau cymorth yn amrywio'n sylweddol rhwng y mathau o ffermydd. Yn hanesyddol, ychydig o daliadau cymorth a gafodd ffermydd dofednod, garddwriaeth a moch. Ar y cyfan, mae ffermydd llaeth yn llai dibynnol ar daliadau cymorth, tra bo ffermydd cig eidion a defaid yn fwy dibynnol, yn enwedig yn yr ucheldiroedd.



Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ⇐

Er bod rheolaeth dda ar dir yn gallu gwella a chynnal ansawdd ein hadnoddau naturiol, os na fydd tirfeddianwyr yn rheoli eu tir yn briodol, bydd hynny hefyd yn gallu cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

Ym Medi 2016, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN)^{xix} yn unol â gofynion Deddf yr Amgylchedd. Mae'r adroddiad hwn yn cyfleu rhai negeseuon pwysig am ein hadnoddau naturiol a'r graddau y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Dylai hyn fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llunio polisi amaethyddol yn y dyfodol.

Ar sail y dystiolaeth yn yr ASAN, mae Gweinidogion Cymru wedi pennu eu blaenoriaethau ar gyfer polisi i ymdrin â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy'r Polisi ar Adnoddau Naturiol.

Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn amlinellu'r blaenoriaethau cenedlaethol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu ein hadnoddau naturiol ac i fanteisio ar y cyfleoedd mawr y maent yn eu cynnig ar gyfer ein llesiant a'n ffyniant.

Mae tair blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur
- Cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, bydd angen gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru a chan randdeiliaid ar draws sectorau.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn datblygu Datganiadau Ardal i helpu i gyflawni'r Polisi ar Adnoddau Naturiol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ffermwyr realeiddio asedau ac ystyried arallgyfeirio.

6. Yr effaith o ymadael â'r UE ↪

Mae cryn gynnwrf ar hyn o bryd o ganlyniad i ansicrwydd sy'n deillio o benderfyniad y DU i ymadael â'r UE. Er bod risgiau sylweddol ar hyn o bryd i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru y bydd angen eu rheoli'n ofalus, gall cyfleoedd godi hefyd y bydd yn rhaid manteisio arnynt.

Cyfleoedd a bygythiadau o ganlyniad i ymadael â'r UE ↪

Cyfleoedd

- Mae cyfle i ddatblygu polisi amaethyddol i Gymru. Mae potensial sylweddol i ddisodli mewnfôrion ym mhob un o'r prif sectorau amaethyddol yng Nghymru^{xx}
- Cyfleoedd newydd i fasnachu, ar yr amod bod y marchnadoedd yn aros yn agored.
- Mae'r gyfradd gyfnewid fwy cystadleuol yn creu amodau marchnad da ar gyfer allforio a disodli mewnfôrion – os bydd hyn yn parhau yn y tymor hir.

Bygythiadau

- Y posibilrwydd o gyflwyno tariffau a rhwystrau di-doll yn ein marchnadoedd allforio. Mae hyn yn fygythiad mawr i'r sector defaid, yn benodol, gan ei fod yn dibynnu'n helaeth ar allforion i gydbwysu gwerth carcassau.
- Os caiff tariffau masnach eu lleihau'n fympwyol fel rhan o bolisi bwyd rhad, bydd y gallu i wneud elw o'r farchnad yn cael ei danseilio drwy gystadlu gan fewnfôrion cost isel o ansawdd gwaeth sydd wedi'u cynhyrchu gan ddilyn safonau is o ran yr amgylchedd, iechyd anifeiliaid a hawliau dynol.
- Mae gwendid y bunt yn ychwanegu at gost mewnbynnau allweddol i'r fferm.
- Mae ein statws o ran rheoli clefydau anifeiliaid yn uchel iawn, ond byddai TB buchol yn gallu effeithio ar ein gallu i fasnachu.
- Ansicrwydd cyffredinol ynghylch sut y bydd ymadael â'r UE yn dylanwadu ar y systemau rheoleiddio a chymorth yn y dyfodol.

Nid yw'r penderfyniad i ymadael â'r UE wedi newid Gweledigaeth *Amaeth Cymru*, ond mae'n golygu bod rôl gydweithredol y grŵp hwn yn bwysicach byth a bod angen iddo gyflawni ei waith yn gynt.

Un o'r hanfodion ar gyfer gwireddu'r Weledigaeth yng nghyd-destun ymadael â'r UE fydd sicrhau mynediad da i farchnadoedd y DU, yr UE a marchnadoedd byd-eang. Mae *Amaeth Cymru* wedi ymdrin â'r materion hyn yn ei bapur ar fynediad i farchnadoedd (gweler Atodiad 2).

Mae angen clir am gyfnod pontio ar ôl ymadael â'r UE er mwyn darparu ar gyfer sefydlu cyfundrefn fasnach a mecanwaith cymorth hyfyw. Byddai dull gweithredu o'r fath yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit caled yn sylweddol.

Mae *Amaeth Cymru* hefyd yn cydnabod ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth y DU yn darparu adnoddau i Gymru sy'n gymaint neu'n fwy na'r hyn y byddai wedi'i dderbyn o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin er mwyn cynorthwyo ffermio yng Nghymru.

7. Y ffordd ymlaen ⇐

Cynhaliodd *Amaeth Cymru* weithdy dau ddiwrnod gydag aelodau'r bartneriaeth a gwahodd rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun i gyflawni'r Weledigaeth. Mae'r cynllun wedi'i gategoreiddio ar sail anghenion cyffredinol a mesurau i sicrhau ffyniant a chydnerthedd. Mae dadansoddiad SWOT ar gyfer y diwydiant amaethyddiaeth yn Atodiad 3.

Anghenion cyffredinol ⇐

Mae'r elfennau a nodwyd isod yn disgrifio bylchau mewn gwybodaeth neu ddealltwriaeth y bydd angen eu llenwi cyn y gellir rhoi cynllun cyflawni ar waith yn llawn.

1. Mae angen cael rhagor o ddata a thystiolaeth ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol; rydym yn gwybod yn fras beth sydd angen ei wneud ond byddem yn deall maint yr effaith yn well o gael mwy o ddata.

2. Mae angen deall y materion a nodwyd yn yr ASAN yn well ac a fydd rhai o'r mesurau unioni presennol yn llwyddo yn y tymor hir ac a oes angen dull gwahanol o weithredu nawr.
3. Pennu cyfeiriad strategol a darparu strwythur cydlynol i ddelio â chamau i liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd (lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr) a chamau i helpu busnesau amaethyddol i gynllunio ac ymateb i newidiadau ym mhatrymau'r tywydd.
4. Ystyried a oes angen gwell tystiolaeth a gwell cyfathrebu ynghylch arwyddion o sectorau a marchnadoedd er mwyn helpu i ffurfio rhwydweithiau gwell i gyfnewid gwybodaeth ac offer ar eu cyfer fel y byddant yn cwrdd ag anghenion yr holl gyfranogwyr yn fwy effeithiol. Aellir gwneud defnydd gwell o'n llwyfan gwarant ffermydd effeithiol er mwyn cyfnewid gwybodaeth yn well?
5. Bydd angen cydweithio gwell rhwng yr holl gyfranogwyr sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun hwn.
6. Gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau a all fodoli ac sydd angen eu dileu cyn gallu rhoi'r cynllun ar waith yn llawn; mae'n bosibl bod rhwystrau sy'n ymwneud â gwybodaeth, y gallu i ymdopi â'r newid sydd ei angen, cynllunio, trethiant, mynediad at fand eang effeithiol a'r gallu i ddod i mewn i'r diwydiant a'i adael yn rhwydd. Dod i ddeall a oes offer priodol gan y diwydiant ar gyfer rheoli risg er mwyn ymdopi â'r amodau cyfnewidiol sy'n sicr o godi o ganlyniad i newid mewn marchnadoedd, y perygl o glefydau a'r newid yn yr hinsawdd neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hynny.

Mesurau i gynyddu ffyniant ⇐

Y bwriad cyffredinol yn yr adran hon yw hybu gweithgareddau sy'n gwneud i farchnadoedd weithio'n well a sicrhau bod y gwerth ychwanegol yn aros ar y fferm, gan ei gwneud yn fwy proffidiol a ffyniannus.

1. Datblygu 'Brand Cymru' i hyrwyddo cynhyrchion safonol o Gymru yn y marchnadoedd domestig a thramor gan ganolbwyntio ar gynyddu cyfran y cynhyrchion â brand Cymru sy'n cael eu gwerthu yn y marchnadoedd Manwerthu a Gwasanaethau Bwyd. Cyfleu darlun sy'n cyfuno ansawdd da a safonau da o ran lles a'r amgylchedd, ynghyd ag agweddau o ddelweddau o ddiwylliant a thirwedd unigryw Cymru. Bydd y brand wedi'i seilio ar safonau blaengar, sy'n cael eu harolygu'n rheolaidd ac annibynnol, a fydd yn gwarantu ansawdd cyson uchel y cynhyrchion.
2. Hybu gwaith i ddatblygu cynhyrchion arloesol sy'n ateb galw'r farchnad ac yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr bob amser. Mae gofynion y defnyddiwr yn newid drwy'r amser ac mae defnyddwyr heddiw yn chwilio am brydau o fath mwy hyblyg a chyfleus y gellir eu paratoi'n gyflym ac sy'n fwy cydnaws â ffyrdd modern o fyw lle mae pobl yn bwyta ar eu pen eu hunain neu'n barau; mae prydau bwyd i nifer mawr o bobl yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol bron.
3. Mae angen llif gwybodaeth gwell i fyny ac i lawr y cadwynau cyflenwi; maent yn gweithio'n well os ydynt yn fwy cydgysylltiedig a'r holl gyfranogwyr yn deall arwyddion o'r farchnad ac yn ymateb iddynt; mae ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun Masnach Deg yn enghraifft o hyn.
4. Hyrwyddo marchnadoedd allforio, yn enwedig yn y sector cig coch. Mae cydberthyniad uniongyrchol rhwng perfformiad allforion a'r pris wrth gât y fferm. Bydd perfformiad gwell ar allforio yn sicrhau bod cyfran fwy o'r gwerth yn y gadwyn gyflenwi yn aros ar y fferm. Mae'r ffaith bod y bunt yn wannach ar hyn o bryd yn sicrhau bod allforion yn fwy cystadleuol ond, er mwyn cynnal allforion yn y tymor hwy, mae angen strategaeth o wahaniaethu sy'n canolbwyntio ar nodweddion unigryw cynhyrchion o Gymru. Drwy gynyddu allforion, bydd cyfleoedd i werthu darnau cig a chynhyrchion o bob math, yn enwedig y rheini nad yw defnyddwyr ym Mhrydain yn arfer eu prynu.
5. Manteisio ar gyfleoedd sy'n codi i ddisodli mewnfurion am fod y bunt wannach yn gwneud cynhyrchion cystadleuwyr yn ddrutach. Mae hyn yn bosibl iawn yn y sector llaeth, a hefyd yn y sector cig eidion.
6. Gall rhai cyfranogwyr sicrhau mwy o ffyniant drwy ystyried cyfleoedd eraill fel busnesau wyau a dofednod; mae'r bwydydd hyn yn fwy proffidiol yn y tymor byr ar hyn o bryd ond rhaid i fusnesau o'r fath gael eu costio'n llawn a chynnwys cyfleusterau priodol ar gyfer gwaredu a rheoli'r holl gynhyrchion gwastraff. Bydd cyfle hefyd i ystyried prosiectau mwy arloesol fel ffermio fertigol.
7. Dylid asesu cyfleoedd newydd yn rheolaidd drwy broses effeithiol ar gyfer sganio'r gorwel.
8. Sbarduno arallgyfeirio i ffyrdd newydd o ddefnyddio adnoddau; cymell mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy o bob math, coedwigaeth lle mae'n briodol a thwristiaeth ar raddfa fach wedi'i seilio ar dirwedd a bwyd lleol.
9. Meithrin gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae marchnadoedd yn gweithio a'u heffaith ar berfformiad ffermydd; mae angen ffyrdd gwell o rannu'r arferion gorau a mwy o ddealltwriaeth o'r elfennau sy'n gwneud ffermydd yn broffidiol, mwy o ddealltwriaeth o gostau mewnbynnau a gwell defnydd o feincnodi. Bydd dull amaethyddiaeth fanwl (yn debyg i ffermio â'r) yn lleihau gwastraff ac yn cynyddu proffidioldeb.
10. Bydd y sector yn perfformio'n well yn gyffredinol os bydd sgiliau'n cael eu hoptimeiddio a'u defnyddio'n effeithlon; mae angen hwyluso datblygiad proffesiynol parhaus a'r gallu i newydd-ddyfodiaid â sgiliau mwy priodol ddod i'r sector yn ddirwystr ac i unigolion ei adael os nad ydynt yn gallu cystadlu bellach.



Mesurau i gynyddu cydnerthedd

1. Dim ond busnesau gwirioneddol gadarn sy'n gallu amddiffyn, cynnal a gwella eu lle yn y farchnad. Yn yr adran flaenorol, roeddem wedi trafod sut i gyflawni hyn drwy wahaniaethu ond rhaid i fusnesau fod mor gosteffeithiol a chystadleuol â phosibl hefyd. Bydd busnesau sy'n ymdrechu i wella eu perfformiad drwy'r amser, i leihau eu costau ac i ddefnyddio'r dechnoleg arloesol ddiweddaraf yn fwy cydnerth yn y tymor hir. Mae busnesau mwy effeithlon yn gallu lleihau eu harddwysedd carbon yn unol â Chynllun Datgarboneiddio Cymru a'r targedau sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd busnesau sy'n optimeiddio'r allbynnau o fewnbynnau (h.y. yn gwella cynhyrchiant) drwy reoli adnoddau a gwella iechyd pridd, rheoli glaswelltiroedd a sicrhau perfformiad genetig gwell yn fwy effeithlon ac yn fwy proffidiol yn y tymor hir. Fodd bynnag, dylai cynhyrchiant gael ei wella'n gynaliadwy a dylid ei raddnodi ar sail gallu'r tir i'w gynnal. Mae arferion amgylcheddol da, fel rhai ar gyfer cadw pryfed peillio, bioamrywiaeth a diogelu priddoedd, yn cryfhau adnoddau'r fferm yn y tymor hir ac yn creu mwy o botensial ar gyfer ei phroffidioldeb hirdymor. Yn wir, ni ddylid goddef arferion amgylcheddol gwael a rheoli gwael ar adnoddau a dylid rhoi cosb yn yr achosion gwaethaf.
2. Mae'n bwysig bod y cynllun yn hybu statws iechyd uchel ar gyfer anifeiliaid gan y bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd a chydnerthedd yn y tymor hir. Mae statws iechyd uchel ar gyfer anifeiliaid yn hanfodol hefyd i hwyluso allforio.
3. Bydd y sector yn perfformio'n well a bydd yn fwy cadarn os bydd cadwynau cyflenwi yn ychwanegu mwy o werth yn agosach i'r pwynt cynhyrchu cynradd; bydd mesurau i hybu mwy o fuddsoddi yng ngallu cynhyrchu eilaidd Cymru yn diogelu cynhyrchu cynradd a swyddi yn y tymor hir.
4. Dylai perfformiad amgylcheddol da gael ei hyrwyddo drwy reoleiddio mwy cydnaws sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.
5. Mae Talu am Wasanaethau Ecosystemau yn cynnig cyfleoedd hirdymor i'r sector; gweithgarwch sy'n datblygu yw hwn a all greu canlyniadau yn y farchnad ar gyfer nwyddau (bioamrywiaeth, diogelu adnoddau, rheoli llifogydd etc.) sy'n cael eu hariannu'n aml o goffrau cyhoeddus. Cafwyd enghreifftiau o arfer da yn barod: mae'r rhain yn cael eu hariannu ar sail ddyngarol mewn llawer achos ac yn gallu dangos y ffordd ymlaen. Dylid ystyried darparu cyllid sbarduno o goffrau cyhoeddus ar gyfer cynlluniau tebyg. Dylid chwilio am ragor o gyfleoedd drwy sganio'r gorwel.
6. Er mai cynhyrchu bwyd a choedwigaeth fydd y gwasanaeth ecosystem mwyaf hyfyw am gryn amser eto, y cyfle sydd wedi codi'n fwyaf diweddar yw cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Bydd y dechnoleg hon yn darparu ffrwd incwm ychwanegol ddefnyddiol i'r rheini sy'n gallu cymryd rhan. Felly dylid hyrwyddo'r cyfle hwn ond dylid ei reoli'n ofalus er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol fel y rhenti tir uwch sy'n gysylltiedig â threulio anaerobig ar raddfa fawr.

7. Dylid parhau i ddarparu cymorth ar gyfer buddsoddi gan fusnesau fferm mewn offer sefydlog newydd a gwell, mentrau i leihau costau, gallu prosesu ar y fferm, arallgyfeirio, marchnata, mentrau cydweithio a chydweithredu, sefydlu sefydliadau cynhyrchwyr, mesurau cysylltiedig ag addasu i'r newid yn yr hinsawdd a gwelliannau amgylcheddol.

8. Casgliad ↵

Mae'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru yn gyfran fwy o lawer o'r economi nag ydyw yn y DU gyfan. Mae'n darparu gweithgarwch economaidd hanfodol yn y cymunedau gwledig lleiaf; dyma'r unig weithgarwch economaidd yn aml yn yr ardaloedd mwyaf anghysbell. Mae'r sector yn diogelu adnoddau naturiol helaeth Cymru ac yn darparu mynediad at amwynderau cyhoeddus.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r mesurau sydd eu hangen i ddiogelu a hyrwyddo'r rôl hanfodol sydd gan amaethyddiaeth ym mywyd Cymru. Mae hefyd yn ymrwmo i adfer adnoddau naturiol Cymru gan gynyddu cynnyrch mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru'n cynnig

potensial mawr ar gyfer twf, drwy greu mwy o weithgarwch economaidd a rhagor o swyddi yn y dyfodol. Ceir uchelgais mawr yn y ddogfen i symud y sector ymlaen drwy greu brand i Gymru sy'n hybu ac yn hyrwyddo cynhyrchion bwyd cynaliadwy o ansawdd da yn y marchnadoedd domestig a thramor.

Mae'r ddogfen yn rhagdybio y bydd Ymadael â'r UE yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf mewn marchnadoedd allforio ac yn caniatáu datblygu systemau cymorth a rheoleiddio a fydd yn helpu i adeiladu sector a fydd yn fwy ffyniannus a chydnerth yn y dyfodol. Os bydd Ymadael â'r UE yn arwain at gollu masnach a lleihau cymorth i'r sector yn y tymor byr, yna bydd hynny'n cyfyngu'n sylweddol ar ein huchelgais. Yn wir, mae'n bosibl na fydd y Weledigaeth yn cael ei gwireddu byth os bydd Brexit caled yn arwain at gollu màs critigol a dirywiad amgylcheddol yn y tymor byr.

Y cam nesaf yn y broses fydd troi'r ddogfen hon yn gynllun ymarferol. Bydd hefyd yn darparu tystiolaeth werthfawr i lunwyr polisi sy'n ystyried cyfundrefn ar gyfer y cyfnod ar ôl Ymadael â'r UE. Bydd gofyn hefyd i *Amaeth Cymru* ystyried pa ran y bydd am ei chwarae mewn paratoi'r cynllun cyflawni hwnnw.



Atodiad 1: Papur Tystiolaeth – Sector amaethyddiaeth Cymru ⇐

Defnyddiwyd Atodiad 1 a 2 i lywio trafodaeth yn Amaeth Cymru wrth ddatblygu Dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru: y ffordd ymlaen.

Mae amaethyddiaeth yng Nghymru'n hanfodol i Gymru ac rydym am ei gweld yn ffynnu, yn cydnabod ei chryfderau ac yn gwireddu ei photensial. Mae cyrhaeddiad ac effaith amaethyddiaeth yn ehangach na'i gwerth economaidd gan ei bod yn effeithio ar gymunedau gwledig, yr amgylchedd, diwylliant a llesiant yng Nghymru. Mae'r pwyntiau bwled canlynol yn disgrifio sefyllfa bresennol y sector amaethyddiaeth yng Nghymru.

Gwerth economaidd a swyddi ⇐

- Mae gwerth amaethyddiaeth i'r economi yn ehangach na gwerth cynnyrch amaethyddol yn unig.
- Mae'r sector amaethyddiaeth yn ddolen hanfodol yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Gwerth Ychwanegol Gros y 'Sector Blaenoriaeth' Bwyd a Ffermio yng Nghymru yw £1.55 biliwn (2013) ac mae'n cyflogi 84,200 o bobl gan gynnwys yr holl ffermwyr a gweithwyr amaethyddol (2014).
- Roedd cyfran amaethyddiaeth o'r gyflogaeth gyfan yn y rhanbarth yn 2015 yn uwch yng Nghymru ar 3.6% na'r ffigur o 1.4% ar gyfer y DU gyfan. Ar lefel fwy lleol, gall gweithwyr y sector amaethyddiaeth fod yn gyfran sylweddol o gyfanswm y gweithwyr mewn rhannau o Gymru wledig.
- Er ei bod yn anodd mesur hyn, mae busnesau amaethyddol mewn ardaloedd gwledig yn darparu gwasanaethau eraill ac mae busnesau eraill sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth am eu bywoliaeth. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod ffermydd teuluol yng Nghymru'n caffael mwy nag 80% o'u nwyddau a gwasanaethau o fewn cwmpas 25 milltir i'r daliad, gan gyfrannu'n fwy eang i economïau a chymunedau lleol.

Taliadau Cymorth ⇐

- Mae ffermio yng Nghymru'n cael cymorth o tua €300,000,000 y flwyddyn gan y Gymuned Ewropeaidd. Mae taliadau cymorth i ffermwyr dros y cyfnod 2012/13 – 2014/15 (tair blynedd) wedi aros yn gymharol sefydlog (er ei bod yn debygol y bydd newidiadau yn 2015/16, o ganlyniad i ddiwygio'r PAC, a fydd yn golygu bod rhai ar eu hennill ac eraill ar eu colled).
- Ar gyfer yr holl fathau o ffermydd, roedd taliadau cymorth yn 81% o'r Incwm Busnes Fferm ar gyfartaledd yn 2014/15 a'r Incwm Busnes Fferm cyfartalog ar gyfer yr holl fathau o ffermydd yng Nghymru yw £24,500. Mae rhagolygon ar gyfer 2015/16 yn awgrymu y bydd incwm yn gostwng ymhellach, fel y bydd taliadau cymorth yn ganran fwy byth o'r Incwm Busnes Fferm. (Dylid nodi bod Incwm Busnes Fferm yn fesur o'r elw net ar y fferm.)
- Mae'r graddau y mae ffermydd yn dibynnu ar daliadau cymorth yn amrywio'n sylweddol rhwng y mathau o ffermydd. Yn hanesyddol, ychydig o daliadau cymorth a gafodd rhai mathau o ffermydd, fel ffermydd dofednod, garddwriaeth a moch. Ar y cyfan, mae ffermydd llaeth yn llai dibynnol ar daliadau cymorth, tra bo ffermydd cig eidion a defaid yn fwy dibynnol – yn enwedig ffermydd cig eidion a defaid yn yr ucheldiroedd. Os yw'r ucheldiroedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, gallant gyfrannu'n sylweddol at fioamrywiaeth yng Nghymru.
- Er hynny, ceir amrywiadau sylweddol o fewn mathau o ffermydd. Gall y rhain adlewyrchu hawliau a hawliadau blaenorol am daliadau cymorth, etc., ond maent hefyd yn gallu adlewyrchu effeithlonrwydd a chraffter busnes y fferm.
- Yn 2014-15 roedd ychydig yn llai na hanner yr holl ffermydd wedi gwneud colled neu byddent wedi gwneud colled os nad oeddent wedi cael taliadau cymorth.

- Mae ffermwyr yn y DU wedi cael taliadau cymorth ers yr Ail Ryfel Byd, ac mae hyn wedi helpu i'w hynysu oddi wrth rymoedd y farchnad. Os na fydd cymorth ariannol ar gael i gynhyrchwyr yn lle'r taliadau presennol, bydd hynny'n sicr o'u rhoi o dan anfantais wrth gystadlu o'u cymharu â gwledydd cyfagos a fydd yn aros yn yr UE. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o economïau drwy'r byd yn darparu taliadau cymorth ar gyfer amaethyddiaeth.

Masnach ↪

- Mae Cymru'n cyfrannu'n sylweddol at gynnyrch cig coch a llaeth y DU. Yng Nghymru y mae 29% o'r defaid yn y DU, 13% o'r buchod godro a 11% o'r holl wartheg (o'u cymharu â thua 5% o bobl y DU).
- Felly mae masnach yn y sectorau hyn yn bwysig iawn i'r diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru, ac mae gwaith yn mynd ymlaen ar gasglu sylfaen dystiolaeth gyflawn ar fasnachu gan Gymru'n unig.
- Mae'r farchnad allforio wedi dod yn gynyddol bwysig i'r diwydiant cig coch yng Nghymru, gan fod hyn yn helpu i gydbwysu'r cyflenwad a'r galw ac yn sicrhau cydbwysedd yn y galw am wahanol rannau o garcasau.
- Drwy fod yn aelod o UE yr 28, mae'r DU wedi cael mynediad am ddim i'r marchnadoedd cig coch sefydledig ar draws y cyfandir. Mae hyn yn bwysig iawn ar gyfer allforio cig defaid er bod marchnad gynyddol yn yr UE i allforion cig eidion wedi i'r DU ailennill mynediad ar ôl codi'r sancsiynau BSE. Felly byddai cyfyngu ar fynediad i farchnad allforio'r UE yn cael effaith niweidiol ar ffermio.
- Gan fod 28% o ddiadell fagu'r DU yng Nghymru a llai na 5% o boblogaeth y DU, mae Cymru'n cynhyrchu mwy o lawer o gig oen nag sy'n cael ei fwyta yn y wlad bob blwyddyn.
- Yn achos cig defaid, mae gwerth yr allforion o Gymru wedi tyfu'n sylweddol o £57 miliwn yn 2004 i £106 miliwn yn 2015. Roedd 95% o'r allforion o gig defaid yn

2015 wedi mynd i farchnadoedd aelod-wladwriaethau eraill UE yr 28.

- Mae'n well gan ddefnyddwyr yn y DU rai darnau penodol o gig oen, fel coesau, ac mae cynnyrch domestig y DU yn cael ei ategu gan fewnforion o gig defaid sy'n dod yn bennaf o Seland Newydd (74% o'r holl fewnforion o gig defaid i'r DU yn 2015) ac Awstralia (15% yn 2015). Mae darnau eraill, sy'n llai poblogaidd yn y farchnad ddomestig, yn cael eu hallforio i wledydd tramor.
- Mae'r rhan fwyaf o allforion cig eidion yn mynd i wledydd eraill yn Ewrop. Yn 2015, roedd 93% o holl allforion cig eidion a chig llo y DU (heb gynnwys offal), sy'n werth £51 miliwn y flwyddyn, wedi mynd i aelod-wladwriaethau eraill yn UE yr 28, a Gweriniaeth Iwerddon a'r Iseldiroedd gyda'i gilydd oedd wedi derbyn mwy na hanner yr holl allforion. Yn y cyfeiriad arall, mae cyfran fawr o'r mewnforion o gig eidion i'r DU yn dod o UE yr 28 hefyd: yn 2015, y ffigur oedd 91% o gyfanswm y mewnforion.
- Yn y sector llaeth, roedd diffyg masnach o tua £1.1bn gan y DU yn 2015, tua £120 miliwn yn llai nag yn 2014. Mae'r cydbwysedd masnach wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, gyda llai o fewnforion a mwy o allforion. Mae bron y cyfan o'r mewnforion i'r DU yn dod o'r UE ac yn 2015 roedd tua 90% o allforion y DU wedi mynd i'r UE.
- Cynnyrch llaeth Cymru yw tua 12% o gynnyrch llaeth y DU ar gyfartaledd. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynnyrch llaeth yng Nghymru wedi cynyddu 20% rhwng 2012/13 a 2015/16. Mae maint y llaeth a broseswyd wedi bod yn is bob amser na'r maint a gynhyrchwyd ac yn 2015/16 roedd yn 48% yn is. Rhaid i'r cynnyrch dros ben gael ei gludo o'r wlad, a dibynnir yn helaeth ar Loegr am allu prosesu. Gan fod disgwyl y bydd maint y llaeth a gynhyrchir yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debygol y bydd mwy o nwyddau llaeth yn cael eu cynhyrchu.

- Mae amaethyddiaeth yng Nghymru'n rhan annatod o'r sector ehangach yn y DU gyfan. Mae da byw, cynhyrchion a nwyddau'n symud yn ddirwystr rhwng Cymru a gweddill y DU. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut i fod yn neilltuo Gymreig gan barhau i gynnal y cysylltiadau hanfodol â gweddill y DU.
- Mae marchnad allforio Cymru wedi'i seilio ar ei henw da am gynhyrchion o ansawdd da sy'n deillio o safonau da o ran iechyd a lles anifeiliaid, iechyd pobl a'r amgylchedd. Er mwyn cadw'r statws hwn, mae angen i Gymru barhau i ariannu rhaglenni sy'n delio'n effeithiol â TB buchol.

Y Manteision Ehangach i Gymru o'r Sector Amaethyddiaeth ▢

- Mae'r sector amaethyddiaeth yn dod â buddion ehangach i Gymru na'r rheini sy'n codi o'i gyfraniad i Werth Ychwanegol Gros yn unig. Er enghraifft, peth cyffredin yw arallgyfeirio busnesau fferm i faes twristiaeth (llety gwely a brecwast, meysydd pebyll, cyrchfannau hamdden) ac yn fwyfwy i faes cynhyrchu ynni (solar, gwynt, gwres a phŵer cyfunedig) felly ni ellir mesur cyfraniad amaethyddiaeth ar sail ei chyfraniad o gynnyrch amaethyddol yn unig. Er enghraifft, mae amaethyddiaeth yn cyfrannu at werth twristiaeth bywyd gwyllt a gweithgareddau awyr agored yng Nghymru, yr amcangyfrifwyd ei fod tua £6.2 biliwn a'i fod yn darparu tua 206,000 o swyddi ledled Cymru. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos bod ymwelwyr yn edrych yn ffafriol ar dirweddau ffermydd.
- Ceir cyfraniad clir gan amaethyddiaeth hefyd at ddarparu gwasanaethau fel dŵr ac aer glân sydd o fudd i Gymru. Er nad yw'r rhain yn cynhyrchu incwm, fe ellir mesur gwerth y buddion hyn (e.e. gwaith trin dŵr yfed yn costio tua £10 miliwn; amcangyfrifwyd bod ansawdd aer gwael wedi costio tua 5% o Gynnyrch Domestig Gros y DU yn 2010). Yn fwy cyffredinol, ceir buddion cymdeithasol a diwylliannol ehangach hefyd (e.e. iaith, tirwedd, ei rôl ganolog mewn cymunedau gwledig).

Yr Amgylchedd a Darparu Gwasanaethau ▢

- Mae amaethyddiaeth yn bresennol ar fwy nag 80% o'r tir yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod potensial mawr ar gyfer effeithiau amgylcheddol – rhai cadarnhaol neu negyddol – a lleihau carbon. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y DU yw 70% felly gall Cymru gyfrannu mwy ar gyfartaledd at weithredu ar yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, gan fod amaethyddiaeth yn bresennol ar gymaint o dir, mae angen ystyried ei gyfraniad i gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.
- Mae tir amaethyddol yn gallu storio llawer o ddŵr, gan gyfrannu'n helaeth at liniaru llifogydd ar dir is. Mae hyn yn berthnasol iawn yng Nghymru, lle mae cyfran mor fawr o'r tir a reolir yn dir pori parhaol, sydd â chyfraddau ymdreiddio dŵr uwch a photensial ar gyfer storio dŵr.
- Cafwyd cydnabyddiaeth bod ffyrdd o reoli, defnyddio a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu'n fwy ar gyfartaledd i economi Cymru nag i wledydd eraill y DU. Amcangyfrifwyd bod hyn yn cynnal 117,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol.
- Mae ffyrdd o reoli a defnyddio'r amgylchedd, a'r effeithiau economaidd lluosog o hynny, yn creu gwariant o tua £9 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru – mae bron £1 ym mhob £10 o Gynnyrch Domestig Gros Cymru yn dibynnu ar yr amgylchedd.
- Yn ei gwaith ar asesu gwerth cyfalaf naturiol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi amcangyfrif mai'r prisiaid ariannol o dir amaethyddol y DU yw £45.1 biliwn, ar sail prisiau 2011.

- Gyda golwg ar garbon, yr amcangyfrif o brisiad ariannol o wasanaethau dal a storio nwyon tŷ gwydr net a ddarparwyd gan gyfalaf naturiol y DU yn 2007 a 2011 yw £7.4 biliwn ac £8.0 biliwn yn y drefn honno. Amcangyfrifwyd bod 1.2 MtCO₂ o garbon wedi'i ddal a'i storio mewn biomas byw (coed yn bennaf), sy'n gyfwerth â £75.6 miliwn am werth blynyddol dal a storio carbon yng Nghymru yn 2016. Mae cyfle mawr hefyd i ddal a storio mwy o garbon drwy goedwigo tir ymylol llai ffafriol.

Diwylliant a'r Gymraeg ⇐

- Yn wahanol i rai rhannau eraill o'r DU, mae cysylltiadau diwylliannol â ffermio ledled Cymru'n aros yn gymharol gryf, ac mae amaethyddiaeth yn parhau i gyfrannu at ddenu ymwelwyr a sicrhau'r budd mwyaf posibl o dwristiaeth ac at gynnal y Gymraeg.
- Ledled Cymru, mae'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn y categori amaethyddiaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol at gadw'r iaith yn nhermau niferoedd, ac yn enwedig yn nhermau'r gyfran yn y categori sy'n siarad Cymraeg (29.5%), sy'n fwy nag yn yr un categori cyflogaeth arall.



Atodiad 2: Amaeth Cymru – Papur Sefyllfa ar Fynediad i Farchnadoedd ↗

Pwrpas y papur hwn ↗

Pwrpas y papur hwn yw darparu gwybodaeth am y canlyniadau posibl i'r sector amaethyddiaeth o Ymadael â'r UE o ran mynediad i farchnadoedd yng nghydestun cyflawni Gweledigaeth *Amaeth Cymru's* ar gyfer "Diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy'n hybu lles Cymru, nawr ac i'r dyfodol" ¹

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o bapurau a gynhyrchir gan *Amaeth Cymru*. Mae'r papur hwn yn ymdrin â mynediad i farchnadoedd yn unig, ond rhoddir sylw i faterion allweddol eraill mewn papurau sydd i ddod.

Pam mae amaethyddiaeth yn bwysig? ↗

Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn amlinellu rhaglen y llywodraeth i wella economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan arwain at wlad sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egniol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig a chysylltiedig. Gall y diwydiant amaethyddol chwarae rhan allweddol mewn helpu i gyflawni'r agenda hon, gan fod y sector ffermio yn gonglfaen i'r economi wledig ac am fod amaethyddiaeth yn gyfran fwy o'r Gwerth Ychwanegol Gros cenedlaethol yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU.

Amaethyddiaeth Cymru yw'r ddolen bwysig gyntaf yn sector gweithgynhyrchu mwyaf Cymru; sector bwyd a diod dynamig sydd â throsiant blynyddol o £6.1bn (Datganiad Ystadegol Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio 2015), a chadwyn gyflenwi sy'n cyflogi 223,100. Mae hwn yn ei dro yn rhan o ddiwydiant ehangach yn y DU sy'n werth £108bn; y sector bwyd a diod yw'r sector allforio pedwerydd mwyaf hefyd. Mae allforion o nwyddau amaethyddol yn unig yn werth £6.25bn bob blwyddyn

Bydd tyfu'r diwydiant bwyd a diod yn elfen werthfawr yn y gwaith o ddatblygu economi Cymru a'i symud ymlaen. Fodd bynnag, mae'r sector amaethyddiaeth yn dod â buddion

i Gymru sy'n ychwanegol i'r cyfraniad at Werth Ychwanegol Gros o gynhyrchu amaethyddol ar ei ben ei hun a gall gyfrannu at gyflawni pob un o'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae nifer cynyddol o ffermwyr yn helpu i gyflawni'r agenda ar dwf gwyrdd drwy arallgyfeirio busnesau fferm. Er enghraifft, mae cynhyrchu ynni (solar, gwynt, gwres a phŵer cyfunedig) yn fwyfwy cyffredin. Ceir cyfraniad clir hefyd gan amaethyddiaeth at ddarparu gwasanaethau fel dŵr ac aer glân sy'n rhoi buddion hanfodol i'r cyhoedd. Yn fwy cyffredinol, mae buddion cymdeithasol a diwylliannol ehangach hefyd (e.e. iaith, cadw'r dirwedd, ei rôl ganolog mewn cymunedau gwledig).

Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol mewn cynnal cymunedau gwledig. Mewn ardaloedd gwledig, mae busnesau amaethyddol yn darparu gwasanaethau eraill ac mae busnesau eraill yn dibynnu ar amaethyddiaeth am eu bywoliaeth, felly mae gwerth economaidd amaethyddiaeth i'r ardal yn fwy eang. Yn ogystal â bod yn fan cychwyn ar gyfer y sector bwyd a diod, sy'n werth biliynau o bunnoedd, mae busnesau fferm yn bwysig fel cyflogwyr ar eu pen eu hunain, ac maent yn caffael gwasanaethau o bob math gan amrywiaeth fawr o fusnesau eilaidd. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod ffermydd teuluol yng Nghymru yn caffael mwy nag 80% o'u nwyddau a gwasanaethau o fewn cwmpas 25 milltir i'r daliad, gan gyfrannu'n fwy eang at economïau a chymunedau lleol.

Ceir cynhyrchu amaethyddol ar fwy nag 80% o'r tir yng Nghymru felly gall gyfrannu'n gadarnhaol at reoli adnoddau naturiol Cymru a chymau i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, yn unol â Deddf yr Amgylchedd. Mae'n bwysig bod y buddion amgylcheddol dichonol y gall ffermwyr eu darparu yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel 'nwyddau cyhoeddus'. Er enghraifft, amaethyddiaeth sy'n cyfrannu'r mwyaf at weithgarwch seiliedig ar fywyd gwyllt yng Nghymru yr amcangyfrifwyd ei fod yn werth £1.9 biliwn.

Rhagolygon y farchnad ar gyfer amaethyddiaeth yn y tymor canolig a hir ↗

Er ein bod yn credu bod y rhagolygon hirdymor ar gyfer amaethyddiaeth yn gadarnhaol, bydd heriau mawr yn codi yn y tymor byr, yn enwedig os na cheir mynediad i farchnadoedd heb dariffau ar gyfer y fasnach allforio. Yn 2015 roedd yr allforion uniongyrchol o fwyd a diod o Gymru yn werth mwy na £264 miliwn, ac roedd mwy na 90% o'r allforion hyn wedi mynd i'r UE. Mae'r sector cig defaid yn ddibynnol iawn ar farchnadoedd Ewropeaidd gan fod mwy na 90% o'n cig oen yn cael ei allforio i'r UE. Er bod ffermwyr Cymru yn gallu ymaddasu, maent yn dibynnu ar gymorth yr UE ar hyn o bryd am 80% o'u hincwm net. Bydd yn cymryd cryn amser i ddod yn wirioneddol gydnerth.

Mae Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020 yn gosod targedau ar gyfer twf o 30% i gyrraedd trosiant o £7bn a chreu 7000 o swyddi newydd erbyn 2020. Yng nghydestun ymadael â'r UE, dylid diweddarau'r cynllun gweithredu hwn i gynnwys y cyfnod hyd 2030.

Nid yw'r cyfleoedd sydd ar gael i'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, drwy gynhyrchu nwyddau o ansawdd da ar sail systemau cynaliadwy effeithlon gan gyflenwi marchnadoedd uchel eu gwerth yn y DU ac mewn gwledydd tramor, wedi cael eu gwireddu'n llwyr ar hyn o bryd. Mae gan Gymru nodweddion unigryw sy'n deillio o'i hiaith, diwylliant a systemau cynhyrchu, sydd wedi'u datblygu mewn tirwedd eang sydd heb ei hail. Mae'r nodweddion hyn yn cynnig cyfleoedd rhagorol ar gyfer brandio er mwyn hyrwyddo cynhyrchion o Gymru yn y DU ac mewn gwledydd tramor.

Er mwyn troi'r potensial hwn yn swyddi a thwf, dylai diwydiant amaethyddiaeth Cymru gydweithio â llywodraeth i gadw mwy o brosesu sy'n ychwanegu gwerth yng Nghymru a chymryd camau pellach i ddatblygu rhaglen allforio uchelgeisiol i elwa o farchnadoedd yn yr UE a thu hwnt.

Dylai Cymru geisio cystadlu â llwyddiant Gweriniaeth Iwerddon a Seland Newydd wrth ddatblygu diwylliant allforio. Dylai llwyddiant arwain at well prisiau a sefydlogi'r elw a geir o'r farchnad i nifer mawr o gynhyrchwyr bwyd. Dylai strategaeth allforio lwyddiannus gael effaith gadarnhaol hefyd ar brisiau yn y farchnad ddomestig gan gymryd y bydd y galw'n aros yn sefydlog ac na fydd dim neu nemor ddim disodli cynhyrchion. Ysgogi ein marchnadoedd allforio yw un o'r ychydig ffyrdd i ymyrryd yn gadarnhaol ym mhrisiau'r farchnad. Mae sector bwyd a diod llwyddiannus yn un sydd hefyd yn sbarduno gwelliant parhaus ac arloesi yn ei gadwynau cyflenwi, gan ysgogi ymdrechion i ddatblygu cynhyrchion newydd sy'n cadw'n wastad â newid yn y galw gan ddefnyddwyr; mae defnyddwyr am gael cynhyrchion mwy hwylus, amseroedd paratoi byrrach a chynhyrchion sy'n addas i'w gweini i niferoedd llai.

Yr effaith o weithredu'r argymhellion cyffredinol hyn fyddai:

- Helpu i ailgydbwysu'r economi yng Nghymru drwy ddarparu mwy o swyddi a thwf yn y sector preifat;
- Cyfrannu at gyflawni agenda *Symud Cymru Ymlaen*;
- Cael elw gwell i gynhyrchwyr bwyd;
- Gwneud y sector amaethyddiaeth yn fwy cydnerth;
- Helpu i greu cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus.

Fodd bynnag, gellid colli'r holl botensial hwn os bydd y DU yn ymadael â'r UE drwy Brexit caled. Byddai colli marchnadoedd allforio'n gallu arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol yn y tymor byr, yn enwedig i'r sector da byw. Ar hyn o bryd, mae'r sector amaethyddiaeth yn dibynnu'n helaeth ar gymorth gan yr UE am 80% o'i incwm, felly mae'n agored iawn i'r effaith o ergydion yn y farchnad. Dylid cyflwyno mesurau sy'n osgoi'r bygythiadau hyn ac yn caniatáu i'r sector elwa o gyfleoedd a geir y tu allan i gyfundrefn yr UE.

Cyfleoedd a bygythiadau sy'n codi o ymadael â'r UE ⇐

Mae penderfyniad y DU i ymadael â'r UE yn creu cyfleoedd yn y farchnad a bygythiadau i'r gallu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.

Cyfleoedd

- Mae cyfle i ddatblygu polisi amaethyddol pwrpasol sy'n addas i'r diwydiant ac i Gymru.
- Mae potensial sylweddol i ddisodli mewnfôrion ym mhob un o'r prif sectorau amaethyddol yng Nghymru.
- Cyfleoedd newydd i fasnachu, ar yr amod y bydd y marchnadoedd yn aros yn agored.
- Gan fod y bunt yn fwy cystadleuol, bydd amodau'r farchnad ar gyfer allforio yn ffafrïol – os bydd y sefyllfa hon yn parhau yn y tymor hir.

Bygythiadau

- Y posibilrwydd o gyflwyno tariffau a rhwystrau di-doll i'n marchnadoedd allforio. Mae hwn yn fygythiad mawr i'r sector defaid yn benodol gan ei fod yn ddibynnol iawn ar allforio i gydbwysu gwerth carcassau.
- Os caiff tariffau masnach eu lleihau'n fympwyol fel rhan o bolisi bwyd rhad, bydd y gallu i wneud elw o'r farchnad yn cael ei danseilio drwy gystadlu gan fewnfôrion cost isel o ansawdd gwaeth sydd wedi'u cynhyrchu gan ddilyn safonau is o ran yr amgylchedd, iechyd anifeiliaid a hawliau dynol.
- Mae gwendid y bunt yn ychwanegu at gost mewnbynnau allweddol i'r fferm.
- Mae ein statws o ran rheoli clefydau anifeiliaid yn uchel iawn, ond byddai TB buchol yn gallu effeithio ar ein gallu i fasnachu.

Fel y nodwyd yn gynharach yn y papur, byddai'r bygythiadau a oedd yn codi o Brexit caled iawn yn drech na'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd dichonol. Byddai'r rhagolygon am ddatblygu diwydiant bwyd mwy cydnerth a ffyniannus yn cael eu niweidio. Byddai'r elw o amaethyddiaeth yn llai o lawer os oedd marchnadoedd allforio wedi'u cau yr un pryd derbyn llif o fewnfôrion rhad. Byddai'n fwy anodd sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae profiad yn dangos bod ergydion i'r sector ffermio yn arwain at effeithiau canlyniadol difrifol ar gymunedau ehangach a diwydiannau perthynol; mae'r epidemig o Glwy'r Traed a'r Genau yn enghraifft o hyn.

Mesurau i liniaru risg ⇐

Byddai sicrhau trefniant pontio sy'n caniatáu i'r DU barhau i fasnachu ag Aelod-wladwriaethau'r UE a thrydydd gwledydd sydd â chytundebau masnach â'r UE yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit caled yn sylweddol. Colli marchnadoedd yw'r canlyniad mwyaf difrifol o bell ffordd yn y dyfodol agos.

Bydd yn bwysig cael eglurder ynghylch sut y bydd marchnad y DU yn gweithredu ac yn cael ei rheoleiddio fel y bydd pedair gwlad y DU yn gallu parhau i fasnachu'n ddirwystr. Felly bydd angen ystyried y cynnig i ddatblygu fframweithiau i'r DU i gymryd lle fframweithiau allweddol sy'n cael eu gosod gan yr UE ar hyn o bryd. Dylid datblygu'r fframweithiau hyn a chytuno arnynt ar y cyd, yn hytrach na'u gorfodi, gan barchu datganoli a chydabod y bydd buddiant mwy gweithredol gan y gweinyddiaethau datganoledig mewn meysydd sydd heb eu datganoli, fel masnach. Bydd mewnbwn gan y gweinyddiaethau datganoledig yn allweddol i sicrhau bod fframweithiau o'r fath yn cynrychioli'r DU gyfan ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau anfwriadol.

Casgliad ▯

Mae'r rhagolygon ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru yn ddisglair ac, o gael fframwaith polisi priodol, gellir gwireddu'r rhagolygon hyn. Gellir cael cynnydd sylweddol yn nhwf a nifer y swyddi yn y sector gan helpu i ailgydbwysu'r economi a chyfrannu at gyflawni agenda Symud Cymru Ymlaen. Fodd bynnag, byddai Brexit caled yn gallu peryglu'r canlyniad hwn, creu caledi ariannol mawr yn y sector ffermio ac mewn busnesau sy'n uwch ac yn is yn y gadwyn gyflenwi (cyflenwyr amaethyddol a phroseswyr bwyd), ac amharu ar y gwaith hanfodol o adfer adnoddau naturiol Cymru a'u rheoli'n gynaliadwy.



Atodiad 3: Dadansoddiad SWOT ↵

Roedd *Amaeth Cymru* wedi cynnal dadansoddiad SWOT i'w ystyried wrth ddatblygu'r ddogfen hon ac mae'r dadansoddiad hwn wedi'i ddangos isod:

Cryfderau

- Cynnyrch gros amaethyddiaeth Cymru yw £1.5 biliwn ac mae tua 58,000 o bobl wedi'u cyflogi'n amser llawn neu'n rhan-amser ar ddaliadau fferm yng Nghymru
- Mae ffermio'n sail i'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod sy'n werth mwy na £6 biliwn, ac yn cyflogi mwy na 220,000 – y cyflogwr mwyaf yng Nghymru
- Mae ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd Cymru yn cynhyrchu cynnyrch diogel, maethlon, olrheinadwy o ansawdd da gan ddilyn y safonau gorau o ran yr amgylchedd a lles anifeiliaid, sy'n cael eu derbyn a'u cydnabod gan ddefnyddwyr
- Amrywiaeth a chyfoeth y cynnyrch o Gymru – yn cynnwys Cig Oen, Cig Eidion a Phorc Cymru, cynnyrch llaeth, dofednod, garddwriaeth ac ydau
- Statws PGI Cig Oen a Chig Eidion Cymru a Thatws Cynnar Sir Benfro
- Mae 80% o arwynebedd tir Cymru yn cael ei reoli gan ffermwyr, yn cynnwys tiroedd pori eang sy'n darparu cynefinoedd lled-naturiol amrywiol
- Adnoddau naturiol sylweddol ac amodau hinsawdd manteisiol i systemau cynhyrchu seiliedig ar laswellt sy'n cynhyrchu cynhyrchion protein o ansawdd da
- Diwylliant sy'n cymell cyfranogi mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd
- Sylfaen gadarn o adnoddau naturiol ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol a chyhoeddus ehangach, yn cynnwys ynni adnewyddadwy, dŵr, storio carbon
- Gallu cynyddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig

- Gweithlu cryf, mentrus a hyblyg sydd wedi'i hyfforddi at safonau uchel sy'n cynnwys pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfleoedd i ffermio
- Rhwydwaith cadarn ar gyfer addysg amaethyddol a chyfnewid gwybodaeth
- Cyrchfannau sy'n denu niferoedd cynyddol o ymwelwyr sydd wedi'u seilio ar dirwedd eiconig Cymru, sy'n cael ei chynnal gan ffermwyr
- Treftadaeth, diwylliant a hunaniaeth ieithyddol gryf
- Fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd

Gwendidau

- Sector cig coch sy'n rhy ddibynol ar fanwerthwyr lluosog
- Elw gwael o'r farchnad ar hyn o bryd a'r elw'n llai na'r gost cynhyrchu mewn nifer o sectorau
- Dibyniaeth ar gymorth gan yr UE sy'n sicrhau bod bwyd sy'n fforddiadwy i'r defnyddiwr yn cael ei gynhyrchu at safonau uchel
- Costau cludiant uchel sydd wedi'u hachosi gan rwydwaith ffyrdd gwael a diffyg capasiti prosesu o ganlyniad i hynny yn y diwydiant bwyd cyfan ond yn enwedig yn y sector llaeth
- Diffyg ymchwil gymhwysol berthnasol
- All-lif o bobl ifanc
- Rhwystrau i dwf fel gofynion cynllunio, treth a chyfreithiol
- Costau a chymhlethdod sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd rheoleiddio
- Prinder cyfleoedd i arallgyfeirio i dyfu cynyddau oddi wrth gynhyrchu cig oen a chig eidion mewn rhannau helaeth o Gymru – yn enwedig yn yr ucheldiroedd sy'n cynnwys arwynebedd tir mawr

- Cysylltiadau gwael â'r grid cenedlaethol sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i gyflenwi ynni adnewyddadwy
- Nid yw'r holl fusnesau amaethyddol yn gallu elwa eto o welliannau presennol ac arfaethedig mewn cysylltedd band eang a ffonau symudol.
- Diffyg dealltwriaeth o'r ffordd y mae elwa o welliannau mewn cysylltedd band eang a ffonau symudol yn gallu helpu busnesau i dyfu ac arallgyfeirio.
- Mae diffyg mynediad at wasanaethau digidol fel band eang a signal ffonau symudol ar rai ffermydd yn gallu rhwystro camau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio
- Mae rhai arferion amaethyddol yn cyfrannu at ddirywiad mewn ansawdd amgylcheddol a methiant i gydnabod y cyfraniad cadarnhaol gan ffermio i'r amgylchedd yng Nghymru
- Poblogaeth ffermwyr sy'n heneiddio a phrinder newydd-ddyfodiaid

Cyfleoedd

- Y cyfle i sefydlu Cymru fel gwlad sy'n adnabyddus am gynhyrchu bwyd a thyfu'r sector bwyd a diod yng Nghymru gan ddarparu swyddi, twf a chyflogaeth yng Nghymru ar sail cyfleoedd marchnata a brandio ar gyfer cynhyrchion o ansawdd da o Gymru gan fanteisio ar werthoedd unigryw'r amgylchedd naturiol, hunaniaeth a diwylliant a safonau cynhyrchu o'r radd flaenaf o ran yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid
- Mae Ymadael â'r UE yn cynnig cyfle i ddyfeisio system cymorth a rheoleiddio sy'n hwyluso hyn ac sy'n well o ran diwallu anghenion Cymru; yn seiliedig ar ganlyniadau i fwy o raddau ac yn cymell cystadleurwydd a chynaliadwyedd gwell
- Mae'r bunt wannach yn golygu bod allforion yn fwy cystadleuol os bydd marchnadoedd yn aros yn agored

- Cyfleoedd i arallgyfeirio mewn sectorau amaethyddol ac ehangu amrywiaeth y bwyd a gynhyrchir yng Nghymru
- Cynhyrchu mwy, achosi effeithiau llai ac integreiddio amcanion ar gyfer ffermio a'r amgylchedd ymhellach drwy dalu'n deg i ffermwyr am yr holl nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol a chyhoeddus y maent yn eu darparu
- Buddsoddi yn seilwaith ffermio Cymru er mwyn gwella ei berfformiad economaidd ac amgylcheddol
- Cael gwell dealltwriaeth a cheisio lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr am bob uned gynhyrchu drwy wella effeithlonrwydd amaethyddol
- Datblygu a thyfu marchnadoedd allforio amrywiol ac uchel eu gwerth gan leihau'r ddibyniaeth ar farchnad yr UE
- Datblygu a thyfu marchnadoedd domestig gan gynnwys cyfleoedd caffael cyhoeddus
- Cydnabod y cyfraniad gan fwyd diogel, iach a maethlon at lesiant a hyrwyddo hyn drwy'r system addysg a'r gwasanaeth iechyd. Y fantais naturiol sydd gan Gymru fel gwlad sy'n cynhyrchu bwyd yng nghyd-destun yr heriau i'n system cynhyrchu bwyd byd-eang, yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd, y cynnydd ym mhoblogaeth y byd, prinder adnoddau i dyfu bwyd fel tir a dŵr a'r newid mewn deiet mewn gwledydd sy'n datblygu a'r galw am fwy o brotein mewn deiet
- Arallgyfeirio drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy
- Elwa o welliannau mewn cysylltedd band eang a ffonau symudol er mwyn tyfu ac arallgyfeirio busnesau
- Delio â rhwystrau rhag prosesu mwy o deunyddiau amaethyddol crai yng Nghymru, yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y rhwydwaith trafndiaeth yn darparu ar gyfer symud deunyddiau'n effeithlon ac ar gyfer twf

- Manteisio ar y galw am dwristiaeth fferm
- Marchnata, hyrwyddo a datblygu systemau sgorio i gydnabod cynnyrch cig ac ansawdd bwyta
- Lleihau gwastraff ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi
- Elwa o farchnadoedd masnachu dŵr a charbon sy'n datblygu a thaliadau newydd ar gyfer ecosystemau yn gyffredinol; hyrwyddo gwell defnydd o'r ucheldiroedd ar gyfer rheoli dŵr a charbon

Bygythiadau

- Mwy o ddibyniaeth ar fewnforion bwyd sydd wedi'u cynhyrchu at safonau ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid sy'n is na'r rhai ar gyfer Cymru
- Defnyddio cyllid a oedd wedi'i ddarparu o'r blaen gan yr UE ar gyfer cymorth ac ymchwil amaethyddol at ddibenion eraill – Iechyd neu Addysg
- Ansicrwydd ynghylch cymorth i ffermio yn y dyfodol o ganlyniad i ymadael â'r UE
- Marchnadoedd yr UE a marchnadoedd allforio eraill yn cau ar ôl ymadael â'r UE
- Natur fregus incymau ffermydd yn fygythiad i gydnerthedd ffermio, yn ei gwneud yn fwy posibl y bydd busnesau'n methu, yn achosi dirywiad nwyddau amgylcheddol ac yn rhoi pwysau ar gymunedau gwledig
- Cynnydd yng nghostau mewnbynau o ganlyniad i wendid y bunt
- Y posibilrwydd y bydd cytundebau masnach newydd i roi gwell cyfleoedd i wasanaethau ariannol yn golygu bod ffermio'n agored i gystadleuwyr sy'n gweithio ar gostau is
- Y posibilrwydd o golli statws PGI ar ôl ymadael â'r UE
- Gallai'r DU fod yn fwy ymynsol yn nhermau masnach

- Y posibilrwydd y bydd llai o weithwyr crefftus a gweithwyr heb sgiliau o wledydd tramor ar ôl ymadael â'r UE
- Y posibilrwydd y bydd systemau rheoleiddio gwahanol yng Nghymru a'r DU yn achosi cymhlethdod, dryswch ac ystumio yn y farchnad
- Y posibilrwydd y bydd polisi amaethyddol a systemau cyllidebol gwahanol mewn rhannau eraill o'r DU ac yn yr UE yn creu ystumio yn y farchnad.
- Methu â delio â rhai o'r rhwystrau yn y fframweithiau cynllunio a rheoleiddio presennol sy'n atal arallgyfeirio amaethyddol ac arallgyfeirio y tu allan i ffermydd
- Methu ag elwa o welliannau mewn cysylltedd band eang a ffonau symudol nawr ac yn y dyfodol.
- Methu â chyflawni gwelliannau arfaethedig mewn cysylltedd band eang
- Methu â chydabod pwysigrwydd strategol y sector ffermio a chyd-dibyniaethau sectorau eraill fel twristiaeth, bwyd a diod
- Newid sylweddol mewn defnydd tir a fydd yn amharu ar lesiant amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru
- Methu â monitro a gwerthuso mesurau amgylcheddol fel dal a storio carbon a lleihau arddwysedd yr allyriadau o gynhyrchu, a fydd yn tansilio enw da brand Cymru o safbwynt ecolegol
- Diffyg cyfnod pontio ar gyfer cymorth a thelerau masnach yn y dyfodol
- Y newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol disgwylidiedig
- Y posibilrwydd o achosion o glefydau anifeiliaid ecsotig newydd
- Mae ein statws o ran clefydau anifeiliaid yn uchel iawn, ond byddai TB buchol yn gallu effeithio ar ein gallu i fasnachu

- Pwysau parhaus i ostwng prisiau yn y gadwyn gyflenwi
- Pryderon ynghylch deiet ac iechyd pobl yn cyfyngu ar y defnydd o gynhyrchion cig a llaeth
- Arferion amaethyddol gwael yn achosi llygredd gwasgaredig
- Tyfu cnydau tanwydd yn ystumio'r farchnad ar gyfer cynhyrchu amaethyddol
- Y posibilrwydd o golli mesurau i ddiogelu'r amgylchedd a oedd yn cael eu hyrwyddo o'r blaen drwy gyfarwyddebau'r UE
- Colli rhagor o gynhyrchion ar gyfer diogelu planhigion gan roi mwy o bwysau ar hyfywedd cynhyrchu â'r a garddwriaeth.

Atodiad 4: Rhestr ffynonellau ⇐

- i Dogfen ymgynghori – Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru –
- ii Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol –
- iii The future of food and agriculture Report – Food and Agriculture Organization of the United Nations –
- iv Global Greenhouse Gas Emissions Data –
- v Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig –
- vi Agriculture in the UK 2016 – https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/629226/AUK-2016-17jul17.pdf –
- vii Update on the Welsh food and drink sector’s economic performance to 2016 –
- viii Ffeithiau a ffigurau ffermio – <http://gov.wales/statistics-and-research/farming-facts-figures/?skip=1&lang=cy> –
- ix Ffynhonnell: Hybu Cig Cymru ⇐
- x Ffynhonnell: Hybu Cig Cymru ⇐
- xi Ffynhonnell: Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth ⇐
- xii Ffermio - Creu Cymru Unedig - NFU Cymru ⇐
www.nfu-cymru.org.uk/farming-bringing-wales-together-welsh/
- xiii Arsyllfa Wledig Cymru (2013) ⇐
- xiv Ffermio - Creu Cymru Unedig - NFU Cymru ⇐
www.nfu-cymru.org.uk/farming-bringing-wales-together-welsh/
- xv ‘Wildlife Economy Wales’: An Economic Evaluation Scoping Study ⇐
- xvi Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ⇐
- xvii Arolwg o Fusnesau Ffermio ⇐
- xviii Arolwg o Fusnesau Ffermio ⇐
- xix Cyfeiriad at yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ⇐
- xx Gwaith modelu FAPRI UK ⇐